

Strategaeth Mynediad
i Swyddi Etholedig
i Bobl Anabl
Cydymffurfriad
â Deddf
Cydraddoldeb 2010
Canllaw i bleidiau
gwleidyddol

Ebrill 2012

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Deddf Cydraddoldeb 2010	4
Oblygiadau cyfreithiol.....	5
Cymdeithasau.....	8

Cyflwyniad

Mae sicrhau bod gan bawb lais yn ein sefydliadau democrataidd yn gwneud ein democratiaeth yn gryfach. Mae cyrff etholedig sy'n gwbl gynrychiadol o'r bobl maent yn eu gwasanaethu yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae tua un o bob saith oedolyn o oed gwaith (a bron i un o bob dau dros oed pensiwn y wladwriaeth) gyda nam neu anabledd ym Mhrydain Fawr (hynny yw, mae ganddynt nam corfforol neu feddyliol, sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd).

Dyma pam i'r Llywodraeth gynnwys cefnogaeth ychwanegol i bobl anabl sydd eisiau bod yn ASau, cynghorwyr neu swyddogion etholedig eraill fel ymroddiad yng Nghytundeb y Glymblaid.

Roedd yr ymroddiad hwn yn dilyn casgliadau o Gynhadledd drawsbleidiol y Llefarydd a adroddodd yn Ionawr 2010 ar sut i gynyddu amrywiaeth mewn cynrychiolaeth Seneddol. Pwysleisiodd yr adroddiad yr angen i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau y mae grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn wynebu, yn cynnwys pobl anabl.

Yn 2011, ymgynghorodd y Llywodraeth yn gyhoeddus ar gefnogi pobl anabl sy'n ceisio swydd etholedig gwleidyddol. O ganlyniad, mae'r Llywodraeth wedi ymroi i gyflawni'r canlynol:

1. I weithio'n agos gyda phleidiau gwleidyddol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) a sefydliadau anabledd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynrychiolaeth amrywiol yn cynnwys gan bobl anabl
2. Darparu cyfleoedd hyfforddiant a datblygu wedi eu hanelu at gefnogi pobl anabl ar y llwybr i gyfranogiad gwleidyddol.
3. Sefydlu Cronfa Mynediad at Swydd Etholedig i gefnogi costau yn ymwneud ag anabledd
4. Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i ddadansoddi eu polisiau mynediad anabledd presennol ac i hyrwyddo arfer da
5. Hyrwyddo ac esbonio oblygiadau cyfreithiol sy'n berthnasol i bleidiau gwleidyddol h.y. cynhyrchu canllaw cryno i gefnogi pleidiau gwleidyddol i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r canllaw hwn yn ddilyniant o'r pumed ymroddiad uchod. Ei ddiben yw hysbysu pleidiau gwleidyddol o'u hoblygiadau dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('Y Ddeddf'), yn arbennig parthed gwneud addasiadau rhesymol. Bydd hyn yn helpu pleidiau gwleidyddol i fod yn fwy cynhwysol a chynnwys pobl anabl fwy mewn bywyd cyhoeddus.

1 Ffynhonnell: Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl: Arolwg Adnoddau Teuluol 2009/10; Mae oedran gwaith yn cyfeirio at ddynion 16-64 oed a menywod 16-59 oed; Mae Oed Pensiwn y Wladwriaeth yn cyfeirio at ddynion 65 oed neu hyn a menywod 60 oed neu hyn.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r **Ddeddf** wedi disodli deddfwriaeth gwahaniaethu flaenorol gydag un darn o ddeddfwriaeth gyda'r diben o wneud y gyfraith yn symlach a chael gwared ar anghysondeb. Mae hyn yn gwneud y gyfraith yn haws i bobl ddeall a chydymffurfio â hi. Roedd y Ddeddf hefyd yn cryfhau amddiffyniad mewn rhai sefyllfaoedd.

Mae'r Ddeddf yn sefydlu'r gwahanol ffyrdd y mae'n anghyfreithiol i drin rhywun, yn arbennig trwy wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, erledigaeth a methu gwneud addasiad rhesymol ar gyfer unigolyn anabl.

Mae'r Ddeddf yn sefydlu'r gwahanol ffyrdd y mae'n anghyfreithiol i drin rhywun, yn arbennig trwy wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, erledigaeth a methu gwneud addasiad rhesymol ar gyfer unigolyn anabl.

Mae'r Ddeddf yn gwahardd triniaeth annheg yn y gweithle, wrth ddarparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus, wrth weinyddu a rheoli eiddo, mewn addysg, a gan gymdeithasau (megis pleidiau gwleidyddol ac yn cynnwys clybiau preifat). Mae'n rheidrydd ar bleidiau gwleidyddol i gydymffurfio â dyletswyddau penodol o orfodwyd gan y Ddeddf. Mae'n allweddol bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau er mwyn iddynt allu cyflawni'r oblygiadau cyfreithiol hyn, yn cynnwys parthed ymgeiswyr anabl sy'n ceisio swydd etholedig.

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i bleidiau gwleidyddol pan:

- a) fydd y blaid yn bodloni'r diffiniad o 'gymdeithas' fel y disgrifiwyd yn y Ddeddf (hynny yw, grŵp o 25 neu fwy o aelodau gyda phroses ddethol ddilys) ac/neu
- b) fydd sefydliad yn darparu nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau i'r cyhoedd neu adran o'r cyhoedd.

Ar gyfer pwy mae'r cyfarwyddyd hwn?

Gobeithiwn y bydd y cyfarwyddyd hwn yn ddefnyddiol i'r holl bleidiau gwleidyddol a'u haelodau. Ei fwriad yw annog pleidiau gwleidyddol a'u haelodau i ymgynghori gydag a chynnwys pobl anabl. Bydd hefyd o ddiddordeb i bobl anabl a sefydliadau anabledd, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r canllaw hwn wedi ei fwriadu yn arbennig ar gyfer aelodau pleidiau gwleidyddol (neu sefydliadau gwleidyddol eraill) sy'n bodloni'r meini prawf a sefydlwyd yn (a) a (b) uchod. Mae gan y sefydliadau hyn gyfrifoldeb i ddarparu addasiadau rhesymol i alluogi aelodau anabl i integreiddio'n llawn i'r sefydliad ac i beidio bod dan anfantais oherwydd eu hanabledd. Cyflwynir esboniad llawn o beth mae hyn yn golygu yn ymarferol isod.

Rhwymedigaeth gyfreithiol

Gofynion ar gyfer cymdeithasau sy'n bleidiau gwleidyddol cofrestredig

Mae'r Ddeddf yn diogelu pobl anabl rhag sawl math o ymddygiad anghyfreithiol, yn cynnwys:

Gwahaniaethu uniongyrchol ar sail anabledd

Mae hyn yn digwydd pan fydd rhywun anabl yn cael ei drin yn llai ffafriol na rhywun nad yw'n anabl. Gall hefyd ddigwydd pan fydd rhywun nad yw'n anabl yn cael ei drin yn llai ffafriol am y dehonglir ar gam eu bod yn anabl. Yn ogystal, gall ddigwydd pan fydd rhywun nad yw'n anabl yn cael ei drin yn llai ffafriol am eu bod yn ymwneud â rhywun sy'n anabl.

Enghraifft: Derbynia cymdeithas (fel y nodwyd yn (a) a (b) uchod) gais am aelodaeth gan unigolyn anabl gydag anawsterau dysgu. Maent yn gwrthod y cais oherwydd anawsterau dysgu'r ymgeisydd. Byddai hyn yn wahaniaethu anghyfreithiol.

Gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail anabledd

Mae hyn yn digwydd pan fydd polisi neu arfer yn cael ei weithredu gan gynnwys pawb, ond ei fod yn creu anfantais benodol i bobl anabl; os na ellir cyfiawnhau gweithrediad y polisi neu arfer yn wrthrychol, yna gallai hyn fod yn wahaniaethu anghyfreithiol anuniongyrchol ar sail anabledd.

Cyfiawnhad gwrthrychol yw pan ddangosir fod y polisi neu arfer yn bodloni amcan cyfiawn mewn modd cymesur.

Enghraifft: Mae plaid wleidyddol yn gorfodi amod ar ei holl aelodau sy'n anodd i unigolyn anabl gydymffurfio ag o oherwydd anabledd. Gallai amod o'r fath fod yn ofyniad i bob aelod gyflawni canfasio o ddrws i ddrws. Fodd bynnag, maent wedi gorfodi'r amod heb ystyriaeth na rhagfeddwl i unrhyw addasiadau rhesymol y gallai ymgeisydd anabl gyda phroblemau mudoledd fod angen i'w galluogi i gymryd rhan mewn ymgyrch o'r fath yn effeithiol.

Gwahaniaethu yn deillio o anabledd

Mae hyn yn digwydd pan fydd rhywun yn cael ei drin yn annheg oherwydd rhywbeth yn gysylltiedig â'u hanabledd, ac na ellir cyfiawnhau hyn yn wrthrychol.

Enghraifft: Mae'r blaid wedi derbyn cais gan unigolyn anabl gyda nam yn ymwneud â'r cyhyrau. Gofynnwyd i'r ymgeisydd fynychu cyfweiliad ym mhencadlys y blaid yn Llundain ar fore Llun am 10.00am ar ddyddiad penodedig. Maent wedi datgan ar eu gwahoddiad i gyfweled y bydd cais unrhyw ymgeisydd sy'n methu mynychu yn unol â'r llythyr yn cael ei ddiystyru. Beth nad yw'r blaid o reidrwydd yn ymwybodol ohono yw bod gan yr ymgeisydd apwyntiad ysbyty pob dydd Llun; ac yn ogystal, oherwydd problemau mudoledd o ganlyniad i'w hanabledd, maent angen mwy o amser i deithio i leoliad pencadlys y blaid ac felly'n methu cyrraedd erbyn 10.00am.

Fodd bynnag, dylid nodi er mwyn i'r math hwn o wahaniaethu ddigwydd, bod yn rhaid i'r gymdeithas wybod, neu y gellid disgwyl yn rhesymol eu bod yn gwybod, fod yr unigolyn yn anabl.

Methiant i wneud addasiadau rhesymol

Datgana'r Ddeddf fod cymdeithas neu sefydliad yn gyfrifol am gyflawni nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau i'r cyhoedd dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r gofynion canlynol ble mae unigolyn anabl wedi ei osod dan anfantais sylweddol o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Mae'n ddyletswydd ddisgwylgar sy'n golygu bod yn rhaid i gymdeithasau feddwl o flaen llaw am anghenion aelodau a gwesteion anabl (yn cynnwys darpar aelodau a gwesteion) ac i wneud addasiadau rhesymol priodol. Gall y cwestiwn a yw addasiad yn rhesymol ystyried yr holl amgylchiadau.

Gall addasiad rhesymol fod:

1. i addasu darpariaeth, maen prawf neu ymarfer;
2. i addasu neu ddarparu modd o osgoi nodwedd gorfforol;
3. i ddarparu cynhorthwy neu wasanaeth ategol.

I addasu darpariaeth, maen prawf neu ymarfer – mae'n ddyletswydd ar gymdeithas i wneud addasiadau rhesymol ble fydd polisi neu arfer y gymdeithas yn gosod rhywun anabl dan anfantais sylweddol o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r ddyletswydd hon yn gofyn i'r gymdeithas gymryd camau rhesymol i osgoi'r anfantais honno.

Enghraifft: Mae gan gymdeithas bolisi ei fod yn anfon gwybodaeth at ymgeiswyr posibl trwy lythyr. Byddai cydymffurfio â chais i drawsgrifio hyn i brint bras yn cyfateb i addasiad rhesymol i unigolyn anabl gyda nam ar eu golwg.

I addasu neu ddarparu modd o osgoi nodwedd gorfforol – mae hefyd yn ddyletswydd ar gymdeithas i wneud addasiadau rhesymol ble fydd nodwedd gorfforol yn gosod rhywun anabl dan anfantais sylweddol o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r ddyletswydd yn gofyn i gymdeithas osgoi'r anfantais, neu fabwysiadu dull amgen rhesymol o ddarparu mynediad i'r budd, cyfleuster neu

wasanaeth, neu o dderbyn pobl i aelodaeth. Gallai hyn alw am gael gwared ar y nodwedd, ei addasu, neu ddarparu modd rhesymol o'i osgoi.

Enghraifft: Os yw cangen leol o blaid wleidyddol yn penderfynu newid y lleoliad ar gyfer ei gyfarfodydd o ystafell ar yr ail lawr mewn adeilad heb lifft i ystafell ar y llawr gwaelod, byddai hyn yn addasiad rhesymol ar gyfer pobl anabl sy'n ddefnyddwyr cadair olwyn.

Fodd bynnag, os yw'n arfer cyffredin i gynnal cyfarfodydd o'r fath yng nghartref aelod neu aelod cysylltiol, yna nid oes rhaid gwneud newidiadau rhesymol i nodweddion corfforol i wneud y cartref yn hygyrch i aelod anabl y mae nodweddion corfforol y man cwrdd yn cyflwyno rhwystr i'w presenoldeb. Dan yr amgylchiadau hyn, gallai dyletswydd i wneud addasiad rhesymol alw am gynnal y cyfarfod neu gyfarfodydd mewn lleoliad hygyrch amgen.

I ddarparu cynhorthwy neu wasanaeth ategol – mae hefyd yn ddyletswydd ar gymdeithas i wneud addasiadau rhesymol i ddarparu cynhorthwy ategol ble, heb ddarpariaeth cynhorthwy ategol, byddai rywun anabl dan anfantais sylweddol o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl.

Enghraifft: Mae cymdeithas yn cynnal cynhadledd i aelodau ac, yn rhan o'u cynllunio ymlaen, gallant ddarparu gwybodaeth ar gais yn y pecynnau dirprwyon mewn ystod o fformatau hygyrch megis Hawdd ei Ddarllen, Braille, print bras neu dâp sain. Gwneir hyn fel mesur disgwylgar i ddarparu ar gyfer yr aelodau hynny gyda gofynion hygyrchedd. Maent hefyd yn gosod yr un wybodaeth ar eu gwefan ar gyfer aelodau nad ydynt yn gallu mynychu'r gynhadledd a chyflenwi copïau caled o'r dogfennau yn yr amrywiol fformatau ar gais gan aelodau anabl.

Talu am addasiadau rhesymol

Nid oes gan gymdeithas hawl i ofyn i rywun anabl y mae ganddynt ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol ar eu rhan i dalu costau'r gymdeithas o wneud yr addasiadau hynny.

Gan gofio hyn, byddem yn annog aelodau pleidiau sy'n trefnu digwyddiadau a chyfarfodydd mewn tai preifat a lleoliadau cyfarfod anffurfiol eraill i ystyried anghenion unrhyw aelodau anabl a pha addasiadau rhesymol, yn cynnwys defnyddio lleoliad amgen os oes angen, ellir eu gwneud cyn gynted â phosibl.

I sicrhau cydraddoldeb a hygyrchedd effeithiol i bobl anabl, dull cynhyrchiol iawn yw cynnwys pobl anabl. Trwy eu cynnwys cyn gynted â phosibl rydych yn lleihau'r risg o atebolrwydd i'ch sefydliad (am dorri cyfraith gwahaniaethu) a'r posibiliad o orfod talu costau uwch parthed gwneud addasiadau rhesymol. Mae'n deg dweud bod costau addasiadau rhesymol yn ddiethriad yn ddrytach os wedi eu 'bolttio ymlaen' i wasanaeth yn hytrach na'u cynnwys yn eich proses ac, wrth gwrs, dylid eu cynnwys oherwydd eich bod wedi ystyried materion o'r fath o flaen llaw.

Cymdeithasau

Dywed y Ddeddf na ddylai cymdeithas wahaniaethu yn erbyn aelod anabl:

- yn y modd y mae'n darparu mynediad, neu'n peidio darparu mynediad, i aelod anabl i fudd, cyfleuster neu wasanaeth;
- trwy amddifadu'r aelod anabl o aelodaeth;
- trwy amrywio amodau aelodaeth yr aelod anabl;
- trwy ddarostwng yr unigolyn anabl i unrhyw niwed arall.

Er gwybodaeth, mae **Cod Ymarfer Deddf Cydraddoldeb 2010 ar gyfer Gwasanaethau, Swyddogaethau Cyhoeddus a Chymdeithasau** yn cyfeirio at beth sy'n cyfateb i 'fudd, cyfleuster neu wasanaeth' (paragraff 12.27) ac yn disgrifio'r ystod eang o fanteision materol y gall aelodau cymdeithas fwynhau. Mae'n mynd ymlaen i ddisgrifio beth all 'amodau aelodaeth' (paragraff 12.28) gynnwys, megis ffioedd a thaliadau, hawliau pleidleisio, hawl i sefyll am etholiad neu i gynrychioli'r gymdeithas yn allanol, amodau ar gyfer defnydd o gyfleusterau a chymryd rhan mewn digwyddiadau.

Gan fod y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn ddisgwyllgar, mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i gymdeithasau ystyried, a gweithredu, parthed rhwystrau allai atal pobl anabl sy'n ceisio dod yn aelod o blaid, er enghraifft, rhag mwynhau buddion aelodaeth. Mae hyn yn darparu modd o annog a dylanwadau ar arferion da ble dylai pleidiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i drechu'r rhwystrau sy'n atal cynhwysiant pobl anabl cyn i achosion unigol godi.

Enghraifft: Dylai cangen leol o blaid wleidyddol sy'n cynllunio ymgyrch recriwtio ystyried cynhyrchu gwybodaeth ar ffurflenni cais ar ffurfiau hygyrch a threfnu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau mewn lleoliadau hygyrch yn rhan o'i broses cynllunio ymlaen. Mae'r pleidiau gwleidyddol mwy eisoes yn dilyn yr ymagwedd hon yn eu darpariaeth o fanifestos etholiad cyffredinol a'u darparu ar ffurfiau amgen.

Aelodaeth o bleidiau gwleidyddol

Dod yn aelod:

Os yw'n ofyniad bod yn rhaid i rywun fod yn aelod o blaid wleidyddol cyn y gellir eu hystyried ar gyfer detholiad fel ymgeisydd gwleidyddol, yna mae'r gallu i gael eu cyflwyno neu ddethol fel ymgeisydd yn fantais faterol o aelodaeth.

Fodd bynnag, yn unol â'r Ddeddf, gallai unrhyw beth sy'n arwain at wrthod neu gyfyngu mynediad i ymgeisydd anabl fod yn anghyfreithiol gan y gallai wadu'r fantais honno iddynt (adran 20, addasiadau rhesymol). Yn yr un modd, gallai cael eu heithrio rhag eu dethol fel ymgeisydd oherwydd anabledd (adran 13, gwahaniaethu uniongyrchol ar sail anabledd), neu oherwydd rhywbeth yn deillio o'r anabledd (adran 15, gwahaniaethu yn deillio o anabledd) fod yn anghyfreithiol.

Buddion aelodaeth:

Yn yr un modd, mae plaid wleidyddol a chymdeithasau eraill o fewn cylch gorchwyl y Ddeddf hon yn agored i gyflawni gwahaniaethu anghyfreithiol os:

- oes ganddynt amodau aelodaeth sy'n atal pobl anabl rhag symud ymlaen yn y gymdeithas, neu sy'n gwneud unrhyw gynnydd o'r fath yn anoddach nag y byddai i rywun nad yw'n anabl;
- ydynt yn methu gwneud addasiadau rhesymol i osgoi creu anfantais sylweddol i'r unigolyn anabl o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl wrth geisio cynnydd yn y gymdeithas.

Mae'n allweddol, felly, bod cymdeithas yn sicrhau nad yw'n gwahaniaethu yn y ffyrdd a ddisgrifir uchod yn erbyn aelodau anabl ac y gwneir addasiadau rhesymol yn ôl y galw.

Ydw i'n gallu defnyddio gweithredu positif?

www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/104

www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/158

www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/159

Mae'n bwysig deall nad yw cydraddoldeb i bobl anabl yn golygu bod rhaid i chi drin pobl anabl yn yr un ffordd â phobl nad ydynt yn anabl. Er mwyn cyflawni cydraddoldeb rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl, yn aml mae angen trin pobl anabl yn wahanol er mwyn cyflawni canlyniad cyfartal. Mewn rhai amgylchiadau, bydd hyn yn golygu trin yr unigolyn anabl yn fwy ffafriol na'r unigolyn nad yw'n anabl.

Mae 'gweithredu positif' yn wirfoddol ac mae'n rhaid bodloni nifer o feini prawf cyn y gall pleidiau gwleidyddol ei ddefnyddio (cyfeiriwch at adrannau 104, 158 a 159 y Ddeddf).

Dan ddarpariaethau yn y Ddeddf (adran 104), gall plaid wneud trefniadau parthed dethol ymgeiswyr etholiad i ddelio ag unrhyw bobl heb gynrychiolaeth ddigonol gyda nodweddion gwarchoddedig perthnasol. Fodd bynnag, ni all y blaid (ac eithrio rhestrau byr un rhyw (adran 104(7)) gadw'r holl lefydd ar gyfer y grŵp nodwedd warchoddedig berthnasol. Mae'r **Cod Ymarfer Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar gyfer Gwasanaethau, Swyddogaethau Cyhoeddus a Chymdeithasau** yn delio â'r materion hyn.

Felly, nid yw'n anghyfreithiol i drin unigolyn anabl yn fwy ffafriol na rhywun nad yw'n anabl. Fodd bynnag, os yw plaid wleidyddol eisoed yn cynnig trin pobl anabl yn fwy ffafriol, yna ni fydd rhaid iddynt ystyried defnyddio gweithredu positif.

Gallai'r darpariaethau gweithredu positif yn y Ddeddf fod yn fwy perthnasol os bydd plaid wleidyddol eisiau trin pobl gydag anabledd penodol yn fwy ffafriol na'r rhai gyda math arall o anabledd. Er enghraifft, i ddarparu mentora a hyfforddiant i bobl gydag anabledd dysgu ond nid ar gyfer pobl gyda nam ar eu clyw; neu i gynnwys pobl gydag anabledd dysgu yn awtomatig ar restr fer ond nid y rhai gyda nam ar eu clyw.

Enghraifft: Mae plaid wleidyddol yn cynnal sesiynau mentora a hyfforddiant rhanbarthol i bobl anabl gydag anabledau dysgu. Mae'r blaid hefyd wedi dewis cadw nifer benodol o seddi ar restr fer isetholiad ar gyfer pobl anabl.

ISBN 978-1-84987-742-8

© Hawlfraint y Goron 2012

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon
(heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim ar
 unrhyw fformat neu gyfrwng, dan amodau'r
 Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon, ewch i
[http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-
government-licence/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/)
 neu ysgrifennwch at Information Policy Team,
 The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU,
 neu e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.